

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

BIL TWF A SEILWAITH – Caniatâd Cynllunio Tybiedig ar gyfer cydsyniadau i gynhyrchu

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol

1. Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau sy'n ymwneud â chaniatâd cynllunio tybiedig ar gyfer cydsyniadau i gynhyrchu o dan adrannau 36 a 37 o Ddeddf Trydan 1989, sydd wedi cael eu dwyn ymlaen yn y Bil Twf a Seilwaith, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cefndir

2. Cyflwynwyd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ym mharagraff 1 uchod gan John Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy o dan Reol Sefydlog 29.6 Rheolau Sefydlog ("RhS") Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y "Cynulliad Cenedlaethol"). Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o dan RhS 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod yn rhaid cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â Chymru at bwrpas sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu sy'n cael effaith negyddol ar y cymhwysedd hwnnw.
3. Cyflwynwyd y Bil Twf a Seilwaith (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 18 Hydref 2012. Cewch weld y Bil yn:

<http://services.parliament.uk/bills/2012-13/growthandinfrastructure/documents.html>

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

4. Noddwr y Bil yw'r Adran Cymunedau a Llywodraeth leol ("DCLG"). Mae llawer o ddarpariaethau'r Bil, ond nid pob un, yn diwygio'r gyfraith yn Lloegr yn unig ac felly naill ai ddim yn gymwys i Gymru neu'n ailddatgan cyfraith sydd eisoes yn bod yng Nghymru.
5. Pwrpas y Bil yw hybu twf a hwyluso darparu neu ddefnyddio seilwaith, gan gynnwys darpariaeth i ddiwygio'r drefn gynllunio yn Lloegr er mwyn i geisiadau cynllunio allu cael eu gwneud o dan rai amgylchiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn hytrach nag i awdurdodau cynllunio lleol;

darpariaeth mewn cysylltiad â'r cod cyfathrebu electronig o dan Ddeddf Gyfathrebu 2003; a darpariaeth mewn cysylltiad â chofrestru meysydd trefi a phentrefi yn Lloegr.

6. Ceir darpariaethau eraill yn y Bil sy'n ymwneud â seilwaith, gan gynnwys darpariaeth sy'n diwygio Deddf Drydan 1989 er mwyn i Weinidogion allu newid cydsyniadau a roddwyd o dan adran 36 y Ddeddf; a darpariaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol allu rhoi cyfarwyddyd mewn cysylltiad ag unrhyw ganiatâd cynllunio tybiedig cysylltiedig pan newidir cydsyniad o dan adran 36 neu adran 37 y Ddeddf Drydan.
7. Ceir mesurau economaidd yn y Bil hefyd, gan gynnwys darpariaethau ynghylch gohirio dyddiad llunio rhestrau ardrethi annomestig newydd; a darpariaeth sy'n diwygio Deddf Hawliau Cyflogaeth 1966 i greu statws cyflogaeth newydd: "perchen-gyflogai".

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydysyniad ar eu cyfer

8. Y ddarpariaeth berthnasol yn y Bil yw cymal 18(1) i (4) (cydsyniadau o dan Ddeddf Drydan 1989: caniatâd cynllunio tybiedig), fel y'i cyflwynwyd i'r Senedd ar 18 Hydref 2012 a'i diwygio ar 12 Rhagfyr. Cewch weld y diwygiad a gyflwynwyd ar wefan y Senedd:

<http://services.parliament.uk/bills/2012-13/growthandinfrastructure/documents.html>

9. Mae Adran 36 Deddf Drydan 1989 yn rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i roi ei gydsyniad ar gyfer adeiladu, estyn neu weithredu pwerdai. Mae Adran 37 yr un Ddeddf yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol roi ei gydsyniad i osod rhai llinellau pŵer uwchben.
10. Trwy orchymyn caniatâd datblygu o dan Ddeddf Gynllunio 2008 y gwneir ceisiadau ar gyfer datblygu pwerdai ar y tir (sydd dros 50MW) bellach. Fodd bynnag, mae yna nifer o gydsyniadau adran 36 yn bod o dan yr adran hon ynghyd â nifer fach o geisiadau am ganiatâd sy'n aros am benderfyniad. Mae'n bosibl hefyd y caiff ceisiadau eu gwneud yn y dyfodol, i'r graddau nad ydynt yn dod o dan ganiatâd datblygu, i osod llinellau pŵer uwchben yn unol ag adran 37 Deddf Drydan.
11. Mae Cymal 17 y Bil yn diwygio adran 36 Deddf Drydan 1989 er mwyn rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol y pŵer cydsynio a roddwyd o dan yr adran honno. Yn aml, gwelir prosiectau nad ydynt yn cael eu datblygu am sawl blwyddyn ar ôl eu cydsynio. Diben y pŵer hwn yw ymgorffori datblygiadau technolegol ac arferion diwydiannol sydd wedi esblygu dros y cyfnod hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw'r gwelliant hwn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol eisoes y pŵer i newid cydsyniadau adran 37.

12. Mae Adran 90 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddyd i dybio bod caniatâd cynllunio wedi'i roi pan gaiff cydsyniad o dan adran 36 neu adran 37 ei roi. Nid oes gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i newid caniatâd cynllunio tybiedig pan newidir cydsyniad adran 36 neu adran 37. Mae awdurdodau lleol (neu Weinidogion Cymru, o alw cais i mewn, o dan adran 77 y Ddeddf honno) yn cael newid amodau (yn unig) caniatâd cynllunio tybiedig o dan adran 73 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
13. Mae **Cymal 18** y Bil yn diwygio adran 90 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i roi cyfarwyddyd naill ai i newid caniatâd cynllunio tybiedig sydd eisoes wedi'i roi neu i roi caniatâd cynllunio tybiedig newydd pan arferir naill ai y pŵer newydd i newid cydsyniad adran 36 neu'r pŵer sy'n bod eisoes i newid cydsyniad adran 37 yng Nghymru neu Loegr (gan gynnwys y dyfroedd sy'n ffinio â Chymru a Lloegr ac Ardal Ynni Adnewyddadwy). Mae awdurdodau lleol (a Gweinidogion Cymru sy'n galw ceisiadau i mewn) yn cadw eu pwerau i newid amodau caniatâd cynllunio tybiedig.
14. Barn Llywodraeth Cymru yw mai pwrpas cymal 18 (1) i (4) yw diwygio cwmpas a gweithrediad y drefn gynllunio gwlad a thref a bod y darpariaethau felly yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol fel y'u gosodir hwy allan ym mhwc 18 (cynllunio gwlad a thref) yn Rhan 1 Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.
15. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod felly a'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol iddo eu hystyried.

Manteision defnyddio'r Mesur hwn

16. Fel y saif pethau, nid oes gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i newid caniatâd cynllunio tybiedig, felly dylid dilyn trefn Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (TCPA 1990) fel ag yn achos unrhyw ganiatâd cynllunio arall. Mae hynny'n golygu y caiff yr hyrwyddwr wneud cais i'r awdurdod cynllunio lleol er mwyn cael newid yr amodau cynllunio (adran 73 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990). Os bydd angen unrhyw beth arall arnynt (e.e. newid disgrifiad y datblygiad a ganiateir), yna cânt wneud cais i'r awdurdod cynllunio lleol am ganiatâd newydd. Gall y ddau opsiwn gymryd cryn amser a bod yn gostus i'r hyrwyddwr.
17. Trwy ddefnyddio'r Bil, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol newid amodau'r caniatâd cynllunio tybiedig (neu roi un newydd) ochr yn ochr â'r newid i'r caniatâd adran 36 neu adran 37. Yn ein barn ni, mae hyn yn gam pragmatig i gefnogi amcanion polisi ynni Llywodraeth Cymru, hynny heb ragfarnu safiad cyffredinol Llywodraeth Cymru ynghylch cydsyniadau ynni.

18. Barn Llywodraeth Cymru yw mai priodol yw delio â'r darpariaethau hyn yn y Bil DU hwn gan mai hwnnw yw'r cyfrwng mwyaf priodol a chymesur i gymhwyso'r darpariaethau hyn i Gymru.

Goblygiadau ariannol

19. Ni ragwelir goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru o weithredu darpariaethau perthnasol y Bil Twf a Seilwaith na ellir eu hymgorffori fel rhan o'i rhwymedigaethau presennol.

John Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Rhagfyr 2012